

PENODI CADEIRYDD

Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Gwahoddir ceisiadau am swydd Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gychwyn ar 1 Ebrill 2020 am dymor o dair blynedd yn y lle cyntaf.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolyn profiadol sydd yn awyddus i ddefnyddio'i sgiliau a phrofiadau helaeth ym myd llywodraethiant, arweinyddiaeth ac addysg i arwain corff cynllunio cenedlaethol uchelgeisiol sydd â'r Gymraeg wrth wraidd ei bwrpas a'i weledigaeth.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio yn effeithiol mewn partneriaeth gyda phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gynhwysol o'r radd flaenaf.

Bydd y Cadeirydd yn arwain y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Coleg wrth weithredu Cynllun Strategol newydd y Coleg, sydd yn canolbwyntio ar ehangu a datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr a dysgwyr yng nghyd-destun Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau polisi eraill.

Gwybodaeth Gefndir

Gweledigaeth y Coleg yw fod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru. Mae hon yn weledigaeth arloesol a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at dargedau *Cymraeg 2050*¹ yn y sector addysg ôl-orfodol.

¹ *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Llywodraeth Cymru).

Rydym yn gorff cynllunio strategol a chenedlaethol, gyda'r Gymraeg wrth wraidd ein pwrpas a'n gweledigaeth. Byddwn yn lansio ein Cynllun Strategol pum mlynedd newydd ar 5 Chwefror; strategaeth a fydd yn adeiladu ar gyflawniadau'r Coleg ers ein sefydlu ac yn sail i raglen waith y Coleg yn ystod tymor y Cadeirydd newydd.

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 yn dilyn penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i greu sefydliad cenedlaethol i gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg.

Aethpwyd ati yn gyntaf i gynyddu ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, i gynyddu a chynnal cymuned o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg ac i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr a oedd yn dewis astudio rhan o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion dros y ddegawd diwethaf a bellach mae cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio yn ein prifysgolion ledled Cymru. O ganlyniad i'r cynnydd yn y ddarpariaeth a'r nifer o ddarlithwyr ac addysgwyr, ers sefydlu'r Coleg mae cynnydd o dros 2,000 yn y nifer o fyfyrwyr llawn-amser sy'n astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnydd o oddeutu 400 yn y nifer sy'n astudio traen neu ragor o'u cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn adolygiad yn 2016/17, penderfynodd Llywodraeth Cymru i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae'r sectorau hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd gwahanol gan fod y mwyafrif llethol o ddysgwyr yn lleol i'r colegau addysg bellach a'r darparwyr prentisiaethau. Golyga hyn fod y dysgwyr i gyd yn gynulleidfa darged i'r Coleg ac mae'r cynlluniau sydd wedi eu datblygu yn seiliedig ar fodel cyfannol sydd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i bob dysgwr. Bydd gweithredu ymrwymadau'r Llywodraeth yn y maes hwn yn chwarae rhan gwbl allweddol yn y dasg o gyrraedd targedau *Cymraeg 2050* yn ogystal â gwireddu strategaethau Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill.

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Yn gyfansoddiadol, y mae'r Coleg yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac mae hefyd wedi cofrestru fel elusen.

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn cynnwys Cadeirydd a deuddeg o aelodau sydd yn cael eu penodi drwy broses agored drwy hysbysebu.

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad trwy bennu cynlluniau, cytuno ar sut a ble y caiff adnoddau eu defnyddio, a thrwy adolygu cynnydd gwaith y Coleg, gan graffu ar sut y mae'n cael ei gyflawni. Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr a'r rheolwyr wrth gyflawni ei rôl.

Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y nodau a'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r llythyr grant blynyddol yn cael eu bodloni a bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn atebol.

Penodir y Cadeirydd, sydd hefyd yn aelod unigol o'r Coleg, am gyfnod o dair blynedd. Mae'r cyfansoddiad yn caniatáu penodiad am gyfnod pellach o dair blynedd.

Cyfarwyddwyr presennol y Coleg yw:

- Dr Haydn Edwards (Cadeirydd hyd at 31 Mawrth 2020)
- William Callaway
- Nia Elias
- Yr Athro Jerry Hunter
- Meri Huws
- Gwilym Dyfri Jones
- Dr Hefin Jones
- Pedr ap Llwyd
- Dr Rhodri Llwyd Morgan
- Gareth Pierce
- Angharad Roberts
- Llinos Roberts
- Yr Athro Hywel Thomas

MANYLEB SWYDD

Prif ddyletswyddau'r Cadeirydd yw gwneud penderfyniadau strategol, cynnig arweiniad, cymeradwyo strategaethau, monitro perfformiad a sicrhau bod strwythurau llywodraethiant cryf yn goruchwyllo holl ystod gwaith y Coleg.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am berfformiad y Bwrdd ac am lywodraethiant effeithiol y Coleg.

Bydd rôl y Cadeirydd fel a ganlyn:

1. Cynnig arweiniad cadarn a chyson i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg mewn perthynas â chyfeiriad strategol y Coleg, ynghyd ag arweiniad ar ei holl gyfrifoldebau a gweithgareddau

- Cadeirio cyfarfodydd o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, gan sicrhau bod Côt Ymarfer y Cyfarwyddwyr yn cael ei ddilyn.
- Cynnig arweiniad cadarn a chyson i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfeiriad a datblygiad strategol y Coleg a'i gyfrifoldebau ym meysydd addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau.
- Gweithio'n agos ag aelodau'r Bwrdd wrth roi cyngor ac anogaeth i'r swyddogion mewn perthynas â llunio, datblygu a gweithredu polisi a chyflawni cyfrifoldebau ac amcanion y Coleg.
- Sicrhau effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i Bwyllgorau gan gynnwys adolygu perfformiad y cyfarwyddwyr yn flynyddol.
- Cynnal safonau uchaf llywodraethiant corfforaethol gan arddel a dilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Nolan) yn bersonol a sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn eu harddel hefyd.
- Cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod y Coleg yn gweithio'n effeithiol gyda a thrwy sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a phob corff priodol arall.

- Sicrhau effeithlonrwydd cyfarfodydd y Bwrdd gan sicrhau fod amser yn cael ei neilltuo'n briodol i eitemau'r Agenda yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer ymdrin â materion sy'n ymwneud â strategaeth, perfformiad a llywodraethu.
- Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael digon o amser a gwybodaeth i ystyried materion allweddol, gan gynnwys amserlenni a dyddiadau cwblhau realistig ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Cynnal cyfarfodydd adolygu un-i-un gydag aelodau'r Bwrdd o leiaf bob dwy flynedd a hwyluso cyfraniad effeithiol holl aelodau'r Bwrdd at waith y Bwrdd, gan sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol ar gyfer eu gwaith fel Cyfarwyddwyr.
- Sicrhau bod prosesau cynllunio olyniaeth digonol yn eu lle ar gyfer prif swyddogion y Coleg.

2. Gweithredu fel cynrychiolydd a lladmerydd ar ran y Coleg.

- Cynrychioli'r Coleg yn effeithiol gan:
 - feithrin perthynas weithredol gyda sefydliadau perthnasol;
 - hybu ei broffil a'i gysylltiadau ehangach;
 - ymwneud â'r holl ran-ddeiliaid a'r cyhoedd.
- Cynrychioli'r Coleg mewn cyfarfodydd achlysurol gyda Gweinidogion Cymru a chadeiryddion cyrff eraill.
- O bryd i'w gilydd cynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau yn sgil derbyn briff gan y swyddogion ymlaen llaw.

3. Cyfrifoldeb am gefnogi a rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol y Prif Weithredwr

- Gweithredu fel rheolwr llinell i Brif Weithredwr y Coleg. Bydd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr er mwyn trafod materion strategol.
- Dilyn prosesau rheoli perfformiad y Coleg yn amserol, sydd yn cynnwys adolygu perfformiad y Prif Weithredwr.

- Cyfrifoldeb am sicrhau datblygiad proffesiynol y Prif Weithredwr, gan gynnwys trafodaeth am anghenion datblygu a sicrhau bod camau a gytunwyd yn cael eu gweithredu.
- Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr i arwain datblygiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

4. Gweithredu fel Cadeirydd y Llys (Cyfarfod Blynyddol o Aelodau'r Coleg)

- Cadeirio cyfarfodydd o Lys y Coleg (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfodydd arbennig o'r Llys) yn unol â Memorandwm ac erthyglau'r Coleg.
- Ymgyswrtu â chynnwys papurau sydd i'w gosod o flaen y Llys a'u trafod gyda'r Prif Weithredwr a'r swyddogion ymlaen llaw i'r cyfarfodydd.

5. Arall

- Cyfrannu yn rhagweithiol tuag at werthoedd, egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygiadau newydd.

Manyleb Person

Disgwylir y bydd gan y Cadeirydd y canlynol:

- Profiad helaeth o lywodraethiant ac arweinyddiaeth drefniadaethol ar lefel strategol yn y sectorau cyhoeddus neu breifat.
- Profiad a dealltwriaeth o faterion addysgol, gan gynnwys addysg uwch a/neu addysg bellach, ac yn arbennig addysg cyfrwng Cymraeg; a'r gallu i gysylltu'r profiad a dealltwriaeth gydag anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, a gydag anghenion unigolion, cymunedau a chyflogwyr.
- Sensitifrwydd i faterion dadleuol ac ymwybyddiaeth wleidyddol gref ynghyd â dealltwriaeth o gyd-destun gwleidyddol Cymru.
- Profiad a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr adnoddau sydd ar gael a chyflawni targedau o fewn strwythur rheoli a llywodraethu effeithiol.

- Profiad o adeiladu partneriaethau a pherthynas waith effeithiol gydag amrywiaeth o ran-ddelliaid.
- Y gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sgiliau uwch ym meysydd eiriolaeth, trafod, y cyfryngau a chyfathrebu, a'r hygredded personol i hyrwyddo buddiannau'r Coleg.
- Sgiliau penderfynu o'r radd flaenaf.
- Profiad o reoli perfformiad a datblygiad eraill.
- Yr amser i fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill.
- Meddwl annibynnol sydd yn fodlon herio yn adeiladol prif lif trafodaethau cyfoedion.
- Yr awdurdod i fynnu trafodaeth ddigonol ar faterion allweddol.
- Y gallu i ysbrydoli ac i hyrwyddo cenhadaeth y Coleg, gan ddatblygu strategaethau clir a gweithio tuag at dargedau tymor-byr a thymor-hir.
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, a pharodrwydd i herio arferion gwahaniaethol pan fo'n briodol.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Tymor y penodiad

Ebrill 1 2020 – Mawrth 31 2023

Ymrwymiad o ran amser

Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Cadeirydd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau eraill hefyd. Bydd y Cadeirydd yn arwain cyfarfod cyffredinol blynyddol o Aelodau Llys y Coleg ac yn bresennol yng Nghynulliad Blynyddol y Coleg. At ei gilydd, disgwylir y bydd angen i'r Cadeirydd neilltuo'r hyn sy'n cyfateb i oddeutu dau ddiwrnod y mis i'r Coleg.

Cydnabyddiaeth a Threuliau

Telir honorariwm o £7,500 y flwyddyn a thelir treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi wrth wneud gwaith ar ran y Coleg o fewn terfynau a osodir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a rheoliadau ariannol y Coleg.

Cymhwyster

Yn unol â chyfansoddiad y Coleg, ni all y Cadeirydd fod yn aelod o staff na chorff rheoli unrhyw sefydliad addysg uwch, sefydliad addysg bellach, neu sefydliad arall sydd yn aelod o'r Coleg.

Ymddygiad

Disgwylir i'r Cadeirydd ymddwyn ar bob adeg mewn ffordd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd ac yn dangos ymlyniad wrth safonau uchaf llywodraethu corfforaethol ac egwyddorion bywyd cyhoeddus. Dylai ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddiannau personol, proffesiynol neu fusnes a all ddylanwadu ar eu barn wrth gyflawni swyddogaethau Cadeirydd y Coleg neu y gellid tybio y byddent yn gwneud hynny.

Gwneud Cais

Croesewir ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu gweithredu a gwneir y penodiad ar sail teilyngdod.

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi neilltuo'r cyfrifoldeb o wneud y penodiad i'w Bwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. Bydd disgwyl i'r rheiny y rhoddir gwahoddiad iddynt ddod i gyfweiliad ddangos sut y maent hwy'n bodloni'r gofynion yn y fanyleb person drwy ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.

Bydd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.

Dylid gwneud ceisiadau drwy lenwi'r ffurflen gais sydd i'w gweld ar wefan y Coleg www.colegcymraeg.ac.uk/swyddi, a dylai gael ei dychwelyd at

Dr Dylan Phillips

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan

Heol y Coleg

Caerfyrddin

SA31 3EQ.

neu drwy e-bost at d.phillips@colegcymraeg@ac.uk.

Dylid hefyd llenwi a dychwelyd y ffurflen fonitro cyfle cyfartal.

Y dyddiad cau yw 12.00 ar ddydd Gwener, 31 Ionawr 2020. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Cynhelir cyfweiliadau ar ddydd Mercher, 26 Chwefror 2020 yng Nghaerfyrddin.

Os hoffech drafod rôl y Cadeirydd ymhellach, byddwch gystal â chysylltu â Rhian Huws Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, trwy e-bost rhianhuwswilliams@gmail.com.